CYNGOR
CYMUNED
LLANBERIS A NANT PERIS

| **Cofnodion cyfarfod 11eg o Fedi 2024 a gynhaliwyd yn y Ganolfan am 7 yn yr hwyr** | | |
|---|---|---|
| **PRESENNOL** | | |
| Gwilym Evans (Cadeirydd) | Iola Owen | |
| Rhys ap Gwilym | Helen Sharp | |
| Emlyn Baylis | Nia Jones | |
| Louise Price | Bethan Holding | |
| Kevin Jones | Llinos Pritchard | |
| Trystan Thomas | Kim Jones | |
| **1.** | **GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU** | |
| | Agorwyd y cyfarfod yn ffurfiol gan y Cynghorydd Gwilym Evans y Cadeirydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y canlynol, Cynghorydd Nia Jones a Cynghorydd Iwan Harding. | **CLERC** |
| **1.1** | Ni chafwyd cyfranogiad gan y cyhoedd. | |
| **1.2** | Ymgynghoriad System Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy Cyngor Gwynedd - cefnogi ond gyda sylwadau - Y Cynghorydd Rhys ap Gwilym yn anfon y sylwadau ymlaen at Gyngor Gwynedd. | **RhaG** |
| **I.3** | Tŷ Newydd Stryd Warden Llanberis - trafodwyd y datblygiad o godi tŷ annedd yn Stryd Warden fel cais cyn cyflwyno cais cynllunio ffurfiol. Penderfynwyd cefnogi'r datblygiad a chydnabod ei bod yn bwysig i gefnogi pobl leol ac o ganlyniad yn cefnogi defnydd o'r iaith Gymraeg ac i sicrhau bod plant lleol yn mynychu'r ysgol leol. | |
| **1.4** | Defaid a chwynion parhaus - trafodwyd y mater unwaith yn rhagor a phenderfynwyd yn y lle cyntaf bod y Clerc yn anfon at Gyngor Gwynedd gyda chais ffurfiol iddynt wneud gwaith cynnal i'r "Cattle Grids" sydd ar lonydd sirol of fewn ffin y pentref. Ymgynghori a chyrff i weld beth gall ei wneud i ddatrys y sefyllfa a hyd yn oed i weld beth yw cyfrifoldebau ar y ffermwyr ynglŷn â defaid sydd yn crwydro'r pentref. Roedd y Cyngor yn cydnabod bod pobl yn dioddef oherwydd eu swn, eu baw a'u bod yn malu waliau ac yn bwyta blodau a llysiau. | |
| **1.5** | Gwersyllfa mewn mannau anaddas - Mae gwersylla gwyllt wedi bod yn digwydd ar dir Castell Dolbadarn dros yr haf. Penderfynodd y Cyngor bod y Clerc yn anfon y dystiolaeth at CADW. | |
| **1.6** | Waliau fyny'r bwlch yn llawn tyllau sydd yn galluogi ymwelwyr i gael mynediad i barcio yn y caeau. Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol. | |
| **1.7** | Mae Y Glyn yn codi pryder i'r Cyngor oherwydd nid yw gweld bod gorfodaeth yn digwydd yno - Y Clerc i anfon at Parc Padarn am eglurhad. | |
| **2.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | |
| | Dim | |

| | | |
|---|---|---|
| **3.0** | **CADARNHAU GWARIANT A CHYFLWYNO ADRODDIAD ARIANNOL** | |
| **3.1** | Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol mis Gorffennaf ag Awst 2024 a'u derbyn. | |
| **4.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | |
| **4.1** | Cadarnhawyd cofnodion mis Gorffennaf ag Awst 2024. | |
| **4.2** | Bin sbwriel Cae Chware Lan Llyn – dim dilyniant i ddyddiad | |
| **4.3** | Cerflun Coffa'r Chwarelwyr - gwaith mynd yn ei flaen i drio goresgyn problemau gwifrau a gwasanaethau tanddaearol ar y lleoliad arfaethedig. | **CLERC** |
| **4.4** | Panel HBO - dim dilyniant ers cyfarfod y panel a derbyn cofnodion mleoliad wedi ei benderfynu. Gwybodaeth wedi ei anfon at y swyddog priodol er mwyn symud ymlaen a'r cais. | **CLERC** |
| **4.5** | Cerflun Coffa'r Chwarelwyr - rhoddwyd y diweddaraf am y cerflun i'r Cyngor gan y Clerc. | |
| **4.6** | Cronfa HBO - cyfnod gwahodd am geisiadau ar gyfer grantiau i brosiectau o dan £2500 neu dros £2500 yn dechrau ar y 14eg o Fedi hyd nes 1af o Ragfyr 2024. Posteri wedi eu gwneud a byddant yn cael eu dosbarthu gan y Cynghorydd Trystan Thomas. | **RhaG/CLERC** |
| **4.7** | Campfa Awyr Agored - mae cais wedi ei anfon i mewn a gobeithir cael clywed rhywbeth o fewn yr wythnos. | |
| **4.8** | Menter/Partneriaeth Llanberis Partneriaeth Dyffryn Peris - y Cynghorydd Rhys ap Gwilym a'r Clerc i benderfynu ar ddyddiad cynnal cyfarfod i'r cymdeithasu a chyrff o fewn Llanberis a Nant Peris. | |
| **4.9** | Toiledau - rhoddwyd gwybodaeth i'r Cyngor ar yr anfoneb flynyddol ar gyfer y toiledau. Roedd yr anfoneb yn £12000 ar gyfer y tri thoiled o fewn Llanberis. Llynedd dim ond £6000 tawyd fe anfoneb oherwydd bod trefn mewn llaw bod uned parcio yn rhoi 10% o'r meysydd parcio tuag at gostau'r toiledau. Yn anffodus nid oes unrhyw dystiolaeth bod y Cyngor yn rhan o'r cynllun hwn. Bydd y Cyngor bellach yn sicrhau eu bod yn rhan o'r cynllun ar gyfer 2025-2026. Cafwyd ychydig o drafodaeth ar gyfer mabwysiadu'r toiledau. Bydd hyn yn fater o drafodaeth bellach maes o law. | |
| **4.10** | Cysgodafan Bws Maes Padarn - bydd y gwaith i adfer yr adeilad yn cael ei gwblhau o fewn yr wythnos. | |
| **4.11** | Rhoddodd y Clerc eglurhad i'r Cyngor o pam gwrthodwyd ymestyn trwyddedau eiddo Becws Melyn a Gwesty Dolbadarn. | |
| **4.12** | Llyn Padarn - dywedodd y Clerc bod Cyngor Gwynedd (Parc Padarn) yn gobeithio cyflwyno matiau hesian i ladd y chwyn drwy ei fygu. | |

| | | |
|---|---|---|
| **4.13** | Digwyddiadau Coed y Ddol - er bod gwybodaeth wedi dod i law bod cerbydau wedi defnyddio Cae Coed y Ddol a bod sbwriel wedi ei adael dywedodd Parc Padarn nad oedd yn gywir. | |
| **4.14** | Cyfarfod rhithiol wedi ei drefnu gyda swyddog Cyngor Gwynedd i drafod materion traffig a pharcio. | |
| **5.0** | **PRIFFYRDD A LLWYBRAU CYHOEDDUS** | |
| **5.1** | Dim gwybodaeth bellach wedi ei dderbyn i ddydiad. | **CLERC** |
| **6.0** | **Y FYNWENT** | |
| **6.1** | Penderfynwyd oherwydd bod gwastraff yn cael ei adael ar ôl yn y fynwent byddai'r wal oedd yn creu compownd y biniau i'w dymchwel. | **CLERC** |
| **6.2** | Cyflwynodd y Clerc reolau'r fynwent, mae rhai angen eu diwygio. Y pwyllgor asedau i gyfarfod i wneud hyn. Y Cadeirydd Gwilym Evans i drefnu dyddiad. | **GTE** |
| **7.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| | Dim | |
| **8.0** | **GWEITHGAREDDAU CYMUNEDOL** | |
| **8.1** | Cafwyd gwybodaeth bod Glasfryn yn cau a bod angen dod o hyd i gontractwr arall - y Clerc i wneud ymholiadau | |
| **9.0** | **ADRODDIADAU CYRFF ALLANOL** | |
| | Dim Adroddiad | |
| | Daeth y cyfarfod i ben am 9 yn y r hwyr. | |
| **Llofnod:** | *Beth Holding* | **Dyddiad : 9/10/24** |